

Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Tudor Davies (Llanfair) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei frawd, Gwynfor, yn ystod yr wythnos. Cyflwynwn y teulu oll i ofal yr Arglwydd a gweddiwn y byddant yn adnabod gofal a chariad Duw yn eu hamgylchynu yn eu galar a'u hiraeth amdano.
- Anfonwn ein cofion at John H. Williams (Llanefydd) sy'n parhau i gael gofal yn yr Inffirmari. Cyflwynwn ef i ofal Duw gan hyderu ei fod yn profi gofal a grym ein gweddiâu drosto. Cofiw'n hefyd am Rhiannon Roberts (Saron) gafodd lawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd ddiwedd yr wythnos ddiwethaf ond sydd wedi dod adref o'r ysbyty erbyn hyn, fel ag y mae Helen Pritchard (Llansannan). Dymunwn adferiad iechyd buan iawn i'r ddwy ohonynt a gweddiwn y byddant yn cryfhau ychydig bach mwy bob dydd ac yn adnabod daioni Duw yn eu hamgylchynu.

I ddod

- **TAITH GERDEDE I'R OFALAETH** – wedi ei ail drefnu ar gyfer nos Fercher, Gorffennaf 19eg yn ardal Henllan. Cychwyn o fuarth Capel Henllan am 6.30.
- **OEDFA'R FRO** – Ni chynhelir Oedfa'r Fro nos Sul, Gorffennaf 30ain, ond yn hytrach, bwriadwn ymuno hefo'r gynulleidfa yng Nghapel Caersalem, Caernarfon mewn oedfa am 5.30 dan arweiniad Mr Arwel Jones sy'n un o arweinyddion yr eglwys. Mae Capel Caersalem, gafodd ei weddnewid yn ddiweddar, wedi ei leoli ar Stryd Garnon, Caernarfon LL55 2RB. (Holwch Mair ymlaen llaw i gael map a chyfarwyddiadau o ran parcio.) Croeso i bawb! Os oes unrhyw un eisiau lifft neu os oes gennych chi le i roi lifft i rywun arall, plis gadewch i Mair wybod.
- **RHAI O GYRSIAU HAF COLEG Y BALA:**
 - **Cwrs Ieuenctid (i flynyddoedd 7 – 10):** Gorffennaf 31-Awst 4
 - **Anhrefn Awst (i blant 8-12 oed):** Awst 14-17
 - **Souled Out (15+):** Awst 19-24*Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob unigolyn mewn addysg sydd am fynd ar un o'r cyrsiau, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Mae angen llenwi ffurflen i archebu lle, a'i hanfon ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala mor fuan ag sydd bosibl.*
- **CYFARFOD GWOBWRWYO FFYDDLONIAID YR YSGOL SUL Â'R FEDAL GEE** dydd Iau, Medi 28ain yn Eglwys Emaus, Bangor am 3.00.
- **DATHLU 450 MLWYDDIANT CYFIEITHU'R TESTAMENT NEWYDD I'R GYMRAEG** – Sul arbennig i'r Fro yng nghwmni Arfon Jones, Caerdydd dydd Sul, Hydref 1af. Mwy o fanylion i ddilyn.

Darlleniad Wythnos Nesaf

1 Corinthiaid 13:4-7 (BCND tud.191 / BCN tud.174)



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 9^{fed} Gorffennaf 2017

Darlleniad y Dydd

Hosea 14:1-4

(BCND tud.826 / BCN tud.752)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso unwaith eto i'r gwasanaethau ar draws y Fro. Dewch i ni ddod at ein gilydd i gydaddoli a rhoi ein hunain o dan awdurdod Gair Duw heddiw. Gweddiwn y byddwn fel unigolion yn dod i nabod yr Iesu yn well. Pwy bynnag ydym ni, beth bynnag sydd wedi digwydd yn ein hwythnos, dewch i ni ddod heddiw a rhoi ein hunain o flaen yr Hollalluog.

Wrth edrych ar ein darlleniad heddiw, gallwn weld agwedd debyg trwy alwad Hosea i bobl Israel. Roedd pobl Israel yn y cyfnod yma yn bobl oedd, i raddau helaeth, wedi cefnu ar yr Arglwydd. Roeddent yn addoli duwiau wedi'u gwneud o aur, arian a phren, ac yn cael eu harwain gan frenin oedd yn eu tynnu oddi wrth Dduw a thuag at ffug-dduwiau eraill. Arweiniodd hyn at ddirywiad o ddiwylliant Iddewig wrth i bobl Israel fynd ymhellach i mewn i afael pechod ac ildio i bob math o bechodau.

Rŵan, nid i ddweud bod ein bywydau ni yn y fath stad â hyn, ond allwn ni uniaethu gydag Israel yn y sefyllfa yma? Yn ein bywydau ni, ydym ni wedi troi oddi wrth Dduw ac wedi cael ein harwain oddi wrth y gwirionedd? Neu hyd yn oed, fel mae'n hawdd gwneud ar ddiwrnodau hir o haf (os ydy'r silwair i gyd i mewn), ydym ni'n llithro i ffwrdd heb sylweddoli? Os ydym, mae neges Hosea i ni.

Ynghanol hyn i gyd, wrth i bethau fynd o ddrwg i waeth i'r wlad, mae Duw yn cynnig ffordd yn ôl. Mae'n cynnig maddeuant i'w bobl. Mae Hosea yn y fan yma yn trosglwyddo galwad Duw i'w bobl a gofynn iddyn nhw edifarhau: "Tro yn ôl ato, a dweud "Maddau'n llwyr i ni..." (Hosea 14:2). Ein drygioni ni sy'n achosi i ni syrthio oddi wrth Dduw, ond eto mae Duw yn cynnig ein codi. Fel Israel yn troi at Asyria, er ein bod ni'n trio pob peth arall i wella'n sefyllfa, mae Duw yn cynnig Ei law i'n codi. Er ein bod ni eisiau brifo pobl eraill, neu achosi iddyn nhw syrthio weithiau, mae Duw eisiau i ni droi yn ôl ato fo.

Mae'r Arglwydd yn Dduw sy'n llawn o gariad ac sy'n sicr o faddau i ni, beth bynnag yw ein sefyllfa. Dim ots pa mor hir ryda ni wedi bod yn cysgu, neu osgoi mynd i'r capel, neu gwrdd gweddi, mae Duw yn ein gwella o'n gwrthgiliad ac yn ein caru ni'n ddiamod! (Hosea 14:4) Pa mor anhygoel ydy'r newyddion yma: ³⁸ Dw i'n hollol sicr fod dim byd yn gallu'n gwahanu ni oddi wrth ei gariad e. Dydy marwolaeth ddim yn gallu, na'r un profiad gawn ni mewn bywyd chwaith. Dydy angylion ddim yn gallu, na phwerau ysbrydol drwg. Dim byd yn y presennol nac yn y dyfodol. ³⁹ Dim byd ym mhellteroedd eitha'r gofod nac yn nyfnderoedd y ddaear! Na, does dim yn y bydysawd yma greodd Duw yn gallu'n gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yn ein Harglwydd ni, y Meseia Iesu! (Rhufeiniaid 8:38-39)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Gwion

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 9^{fed} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 12^{fed} ➤ **Dydd Gweddi Bro Aled** – Byddwn yn cynnal dydd gweddi arbennig dros Eglwysi Bro Aled yn Festri Llansannan o 10.00 – 4.00, gydag arweiniad i weddi yn digwydd ar yr awr, a thoriad rhwng 1.00 - 2.00. Croeso i unrhyw un daro i mewn i ymuno neu i anfon ceisiadau gweddi atom. Yna, cawn gyfle i gael addoliad gyda'n gilydd gyda'r hwyr am 7.30. Gwnawn hyn er mwyn gofyn am arweiniad Duw a gweddio ar i ewyllys y Tad gael ei wneud ar y ddaear fel yn y nef. (Mathew 6:10)
- Gwener – 14^{eg} ➤ **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) yn Preswylfa, Cefn Meiriadog am 7.00.
- Sul nesaf – 16^{eg} ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams a bydd y Parch. Rhun Murphy yn pregethu.

Llanfair a Cefn Meiriadog

- Sul yma – 9^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00 (*sylwch ar y newid amser*). Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00.
- Mawrth – 11^{eg} ➤ Cinio a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 16^{eg} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 9^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa deulu yn Llansannan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Mercher – 12^{fed} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **HEDDIW**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 16^{eg} ➤ Bydd Mr Trebor Roberts yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma – 9^{fed} ➤ Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00.
- Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf – 16^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith ym Mheniel am 10.00.
- Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 9^{fed} ➤ Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 a Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Groes am 2.00.
- Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.
- Sul nesaf – 16^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00.
- Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Cefn Berain

- Sul yma – 9^{fed} ➤ **Dathlu 150 mlynedd ers sefydlu Capel Llanefydd a 10 mlynedd ers addasu'r adeilad** – Oedfa Deuluol am **10.30** o dan arweiniad y Parch. Ddr Rhodri Glyn a chinio'r dathlu i ddilyn yn y neuadd.
- Sul nesaf – 16^{eg} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.

Manylion Cyswilt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📱 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 582644 📱 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📱 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.